Annwyl Rieni/Warchodwr,

Dyma grynodeb o'r gwaith bydd eich plentyn yn gwneud yn ystod y tymor nesaf.

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Trwy ein sesiynau iaith a thematig bydd disgyblion yn datblygu eu gallu i ddewis strategaethau ieithyddol i greu effaith yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn eu gwaith llafar ac ysgrifenedig: gan edrych yn fanwl ar ddewisiadau, agoriadau brawddeg, defnydd o atalnodi cymhleth, geirfa helaeth (gan gynnwys geirfa bynciol) a chysyllteiriau. Bydd ystod eang o gyfleoedd darllen yn eu helpu i ddatblygu sgiliau darllen megis mynegiant, llithrddarllen, cipddarllen a chrynhoi a darllen rhwng y llinellau. Bydd disgyblion yn cael eu cefnogi i ddod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio geiriadur, thesawrws a rhestri termau. Byddwn yn parhau i ymarfer llawysgrifen i sicrhau'r cyflwyniad gorau posibl. Bydd eich plentyn yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r cysylltiad rhwng ieithoedd gyda ffocws penodol ar ddysgu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Ffrangeg.

## Mathemateg a Rhifedd

Rhif yw ein prif yrrwr ac mae'r sgiliau yma yn cael eu ymarfer yn gyson trwy brofiadau dysgu bywyd go iawn o fewn cyd-destunau megis mesur, defnyddio data, arian, algebra a geometreg. Hyd yn oed ym mlynyddoedd olaf y cynradd, rydym yn defnyddio llawer o offer ac adnoddau ymarferol a dulliau lluniadol er mwyn dyfnhau dealltwriaeth y plant cyn symud ymlaen at dduliau ysgrifenedig. Nid cael yr ateb yn gywir un unig sy'n bwysig – rydym yn annog y plant i drafod eu gwaith, egluro beth wyddant neu beth helpodd ac i ddefnyddio dulliau amrywiol neu weithrediadau gwrth droi i wirio eu gwaith. *Am wybodaeth bellach, gweler y fframwaith rhifedd ar wefan yr Ysgol.*

## Thema

Ein thema y tymor yma yw 'Ein Byd Rhyfeddol.' Bydd y dosbarth yn edrych ar effaith gweithredoedd dynol ar y byd naturiol ac yn trafod ac esbonio'n syml sut a pham mae rhai lleoedd, gofodau, amgylcheddau a thirweddau yn arbennig o bwysig i wahanol bobl. Bydd cyfle i ystyried nodweddion pethau byw gan ddechrau defnyddio geirfa addas: Symud, Tyfu, Sensitif, maeth, atgenhedlu. Bydd y plant hefyd yn adalw gwybodaeth am ddosbarthiad pethau bywgallu ac yn esbonio bod pethau byw yn cael eu dosbarthu i bum teyrnas. Gwaith lluniadol Ernst Haekel bydd yn llywio ein gwaith celf gan edrych ar liw, arliw a thôn wrth beintio. Byddwn yn dysgu sgiliau cyfryngau digidol i greu cyflwyniad ar waith y tymor. Bydd y dosbarth yn dod i wybod am Feganiaeth Moesegol a'I werthoedd.

## Iechyd a Lles:-

Yn ystod sesiynau ymarfer corff, bydd canolbwyntiad ar athletau yn arwain at y mabolgamau. Themau Jigso y tymor yma yw: Perthnasoedd a Newid.

**Dosbarth: Blodeuwedd**

**Blwyddyn 5 a 6**

## Pethau i 'w Cofio

Llyfrau darllen adref Dydd Gwener ac yn ôl POB dydd Llun gyda chofnod.
Cit ymarfer corff ar Ddydd Iau.
Bydd angen dillad coeldan pob yn ail dydd Mercher (yn dechrau ar 29/4)
Defnyddiwch Instagram er mwyn danogs gwaith neu lwyddiannau neu ebostiwch yr ysgol





www.ysgolpenalltau.com ysgolpenalltau@sch.caerphilly.gov.uk @ysgolpenalltau 01443 862974